
Elysium
Mental Health
and Wellbeing



# Tŷ Glyn Ebwy

## Anhwylderau Bwyta Arbenigol
## Cymorth i Fenywod

Part of Ramsay Health Care

## Ynglŷn â Thŷ Glyn Ebwy

### Trawsnewid Bywydau, Gwella Un Person ar y Tro

Mae Ward Meadow yn Nhŷ Glyn Ebwy wedi'i leoli mewn ardal braf rhwng Caerdydd a Bannau Brycheiniog. Mae'r uned arbenigol hon yn cynnig gofal a thriniaeth benodol i fenywod sy'n byw gydag anhwylderau bwyta, gan gynnwys Anorecsia Nerfosa (AN), Bwlimia Nerfosa (BN), Anhwylder Osgoi / Cyfyngu ar fwyd (ARFID), ac anhwylderau bwyta annodweddiadol eraill. Mae ein dull cyfannol yn canolbwyntio ar adfer pwysau corff iach a bwyta'n briodol, gan fynd i'r afael â'r heriau seicolegol sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r cyflyrau hyn.



## Pwy rydyn ni'n ei gefnogi

- Menywod dros 18 oed
- Unigolyn a gedwir o bosibl o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (a ddiwygiwyd yn 2007)
- Diagnosis sylfaenol o anhwylder bwyta
- BMI dros 12.5
- Diagnosis posibl arall gan gynnwys salwch meddwl, Anhwylder Personoliaeth (PD) neu awtistiaeth
- Efallai y bydd angen bwydo nasogastrig
- Hanes posibl o hunan-niweidio a/neu hunan-esgeulustod
- Efallai bydd anghenion cymhleth cysylltiedig ychwanegol gan gynnwys hanes o gamddefnyddio sylweddau neu hanes o drawma a/neu gam-drin

## Dull Adfer Unigol

Yn Nhŷ Glyn Ebwy, rydym yn deall bod adferiad yn daith bersonol a bod nifer o ffactorau'n dylanwadu ar hyn, gan gynnwys cymhlethdod y cyflwr, parodrwydd i gymryd rhan yn y driniaeth, diogelwch emosiynol, iechyd corfforol, a thrawma yn y gorffennol. Er mwyn cefnogi hyn, rydym yn integreiddio tri fframwaith craidd yn ein model gofal:

- **Llwybr PEACE**: Mae'r dull hwn, a ddatblygwyd trwy brofiad clinigol, yn mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng anhwylderau bwyta ac awtistiaeth. Gall tua 37% o unigolion ag anhwylderau bwyta hefyd fod yn awtistig neu amlygu nodweddion awtistig. Mae pob claf yn cael ei sgrinio am ASD ac, os oes angen, yn cael ei atgyfeirio at Lwybr Asesu Awtistiaeth (EAAP) Elysium i gael diagnosis ffurfiol gan ddefnyddio adnoddau ADOS-2 ac ADI-R.
- **Model Maudsley (MANTRA)**: Mae'r model hwn yn targedu'r ffactorau seicolegol sy'n gysylltiedig ag anhwylderau bwyta, megis ymasiad hunaniaethol â'r anhwylder, meddwl anhyblyg, anhawster i reoli'r emosiynau, a heriau rhyngbersonol.
- **Gofal sy'n Ystyriol o Drawma**: Gyda dros hanner yr unigolion ag anhwylderau bwyta wedi profi trawma, mae ein staff wedi cael hyfforddiant ar Ofal sy'n Ystyriol o Drawma, yn seiliedig ar egwyddorion SAMHSA a fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma. Mae hyn yn sicrhau amgylchedd diogel, parchus sy'n grymuso pobl ac sy'n cefnogi ymgysylltu ystyrlon ac yn lleihau'r risg o ail-brofi trawma.





## Ein Hymagwedd Tuag at Ofal

Mae'r Tîm Amlddisgyblaethol (MDT) yn Nhŷ Glyn Ebwy yn cynnwys amrywiaeth eang o sgiliau a dulliau therapiwtig i rymuso unigolion wrth iddynt wella. Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu hunan-benderfyniad, rhoi gobaith i bobl, a chefnogi pobl i weithio tuag at nodau ystyrlon, personol. Mae ein model gofal wedi'i strwythuro ar sail pedair elfen allweddol: gosod nodau, llwybrau triniaeth, ymyriadau therapiwtig, a gwerthuso parhaus.

## Prif Egwyddorion

Mae ein gofal yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Mae ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn arwain pob ymyriad
- Cyd-weithio gydag unigolion, teuluoedd (lle bo hynny'n briodol), a'r sawl sydd wedi'u hatgyfeirio
- Gofal diogel ac effeithiol sy'n lleihau niwed ac yn blaenoriaethu'r opsiynau sy'n cyfyngu leiaf
- Tegwch o ran gofal, gan sicrhau ansawdd cyson waeth beth fo nodweddion person
- Gweithio ar y cyd â thimau cymunedol ac asiantaethau allanol
- Tosturi, urddas, a pharch bob amser wrth ryngweithio
- Gwasanaethau amserol ac ymatebol wedi'u teilwra i anghenion



## Y Tîm

Ein Tîm Amlddisgyblaethol (MDT) yn Nhŷ Glyn Ebwy

- Rheolwr Cofrestredig
- Seiciatrydd Ymgynghorol
- Meddyg Arbenigol
- Nyrsys a Nyrs Practis
- Seicolegydd Ymgynghorol, Seicolegydd Cynorthwyol a Seicotherapydd Systemig
- Dietegydd a Chynorthwyydd Deietegol
- Therapydd Galwedigaethol
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Gweithwyr Gofal Iechyd

Mae'r tîm yn gweithredu o fewn diwylliant sy'n seiliedig ar ymarfer adferol, gan feithrin cydweithio, parch a rhannu cyfrifoldeb wrth ddarparu gofal o ansawdd uchel.

## Yr hyn rydyn ni'n ei wneud

Ein nod yw darparu gofal o ansawdd uchel sy'n aCynlluniwyd ein hamgylchedd fel lle diogel, cefnogol a chartrefol gan helpu i leihau trallod a gwella ansawdd bywyd yn gyffredinol.

Mae adferiad yn aml yn cynnwys lleihau ymddygiadau emosiynol sy'n gysylltiedig â seicopatholeg anhwylder bwyta a datblygu sgiliau ar gyfer rheoli emosiynau, rheoli argyfwng, ac effeithiolrwydd rhyngbersonol.

Mae ein hamcanion yn cynnwys:

- Gosod nodau clir â ffocws
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaethau ymdopi effeithiol
- Cyfyngu ar amser aros yn y ward
- Annog y teulu i gymryd rhan yn y cynllun
- Cynllunio ar gyfer rhyddhau o'r pwynt derbyn




## Pa gymorth rydyn ni'n ei gynnig

### Dieteteg

Mae ein tîm dieteteg yn darparu cynlluniau gofal personol, cymorth gyda phrydau bwyd dyddiol, grwpiau maeth wythnosol a chlinigau. Defnyddir model bwydlen PEACE i gynnig opsiynau prydau hyblyg, gan roi cymorth arbennig i unigolion â nodweddion ASD.

### Therapi Galwedigaethol

Dan arweiniad y Model Galwedigaeth Ddynol (MOHO), mae asesiadau Therapi Galwedigaethol yn cynnwys gwerthusiadau symudedd, synhwyraidd a chychwynnol. Mae Therapi Galwedigaethol yn arwain y model Gofal Diogel ym Mhob Cam (SEES) ac yn cynnal grwpiau therapiwtig fel coginio, ymwybyddiaeth ofalgar, celfyddydau mynegiannol, a bwyta cymdeithasol. Darperir cymorth hefyd ar gyfer bywyd bob dydd a gweithgareddau galwedigaethol.

### Meddygol

Mae Seiciatrydd Ymgynghorol a Meddyg Arbenigol yn goruchwylio gofal meddygol. Cynhelir asesiadau cynhwysfawr wrth dderbyn, gyda chefnogaeth ar gyfer cyflyrau cyd-afiachedd. Dilynir canllawiau MEED a phrotocolau ail-gyflwyno bwyd.

### Seicoleg

Ar ôl cael eu hasesu, mae unigolion yn derbyn therapïau un-i-un wedi'u teilwra ac fel grŵp. Mae triniaethau craidd yn cynnwys CBT-E, MANTRA, a FPT, ochr yn ochr ag ymyriadau ychwanegol fel sgiliau EMDR, DBT & RO-DBT, ACT, Therapi Sgema, CREST a seicoaddysg. Mae sesiynau grŵp yn cynnwys gweithdai sgiliau RO-DBT, CFT, LEAP, Bodywise a Llwybr PEACE.

### Therapi Teulu

Mae Seicotherapydd Systemig yn cynnig therapi teulu a chyplau gan ddefnyddio dulliau deialog a naratif. Mae dau grŵp systemig wythnosol a grŵp gofalwyr misol hefyd ar gael.

### Gwaith Cymdeithasol

Mae'r Arweinydd Diogelu Dynodedig (DSL), yn sicrhau bod pryderon diogelu yn cael eu hystyried yn agored gyda chleifion, gan barchu eu llais a'u safbwynt. Mae ein dull wedi'i seilio ar y Model Sylfaen Ddiogel, Theori Grymuso, Gwerthoedd Dyneiddiol, ac arfer gwrth-ormesol, gwrth-wahaniaethol, hyrwyddo diogelwch, annibyniaeth a chydraddoldeb ym maes gofal.

## Sut i wneud atgyfeiriad:

**Llinell atgyfeirio 24 awr** 0800 218 2398

**Anfonwch e-bost at:**
referrals@elysiumhealthcare.co.uk

**Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn gwahanol ieithoedd, Braille, Hawdd ei Darllen a BSL ar gais**


Hillside, Ebbw Vale,
Blaenau, Gwent NP23 5YA

**Ffôn:** 01495 350349

**E-bost:** tyglynebwy@elysiumhealthcare.co.uk


I weld ein taith fideo, ewch i
elysiumhealthcare.co.uk

Elysium Healthcare

Rhan o Ramsay Health Care

1722/0725